Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/03

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd CF99 1NA

5 Medi 2014

Annwyl Glerc

**Ymgynghoriad ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i gyfrannu sylwadau at ymchwiliad y Pwyllgor i egwyddorion cyffredinol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith, ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg. Felly, prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r diwygiadau arfaethedig effeithio arnyn nhw. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe bai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad y sefydliad yn unol â darpariaethau'r Mesur.

**Pwynt dau'r cylch gorchwyl - Egwyddorion cyffredinol y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth yn y meysydd a ganlyn - y "bwriad cyffredin" a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy" a bennir yn y Bil a'r "cyrff cyhoeddus"**

Nodir yn adran 2 y Bil, mai *"bwriad cyrff cyhoeddus yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy."* Diffinnir datblygu cynaliadwy yn adran 3 y Bil fel *"ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol ddiwallu eu hanghenion hwythau."*

Mae Comisiynydd y Gymraeg eisoes wedi nodi fod lles y Gymraeg wedi ei chydblethu yn agos gyda lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn Strategaeth Iaith Gymraeg y Llywodraeth, ceir cydnabyddiaeth fod cynaliadwyedd y Gymraeg yn destun gofid. Mae'r cyfeiriad penodol at y Gymraeg yn un o nodau llesiant adran 6 y Bil; '*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*' yn atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau llesiant y Gymraeg yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy.

Wrth osod cynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy wrth wraidd gwaith y sector gyhoeddus rhaid bod yn ymwybodol o'r dyletswyddau fydd ar y cyrff hyn o safbwynt y Gymraeg. Bwriad y Bil yw atgyfnerthu'r angen i weithio mewn modd sydd yn cysylltu agweddau gwahanol o waith cyrff cyhoeddus, a gellir manteisio ar y cyfle hynny i amlygu'r berthynas sydd rhwng datblygu cynaliadwy â'r Gymraeg. I'r perwyl hwn, mae cymalau 77-79 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi tri maes trawsbynciol i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys y Gymraeg a datblygu cynaliadwy.

Nid oes cyfeiriad penodol at y Gymraeg o fewn diffiniad "egwyddor datblygu cynaliadwy" a'r "bwriad cyffredin" yn y Bil er bod y Gymraeg yn rhan o lesiant cymdeithasol Cymru. Felly er mwyn sicrhau ystyriaeth briodol i'r Gymraeg, hyderwn bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi dangosydd/ion cenedlaethol yn unol ag adran 11, yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg er mwyn medru mesur cynnydd tuag at y nodau llesiant, ac yn benodol nod 6. Byddai gwneud hynny'n sicrhau fod y berthynas rhwng y Gymraeg â'r tair agwedd ar lesiant a gynhwysir yn y "bwriad cyffredin" yn cael ei sefydlu. Gallai hynny hefyd gryfhau'r ystyriaeth i'r Gymraeg pan fydd y cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru yn gosod a chyhoeddi eu hamcanion llesiant yn unol ag adrannau 9 a 10 y Bil.

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

**Pwynt pump y cylch gorchwyl - a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil**

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ei enwi yn adran 24(2)(b) y Bil fel aelod o banel cynghori'r Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy. Rwyf eisoes wedi datgan mewn gohebiaeth at y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, fy mod yn fodlon cydweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mewn modd priodol. Serch hyn, fel Comisiynydd sydd â swyddogaeth rheoleiddio dros Weinidogion Cymru mae'n holl bwysig fod annibyniaeth yn cael ei gynnal.

Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn cynnwys adrannau sy'n caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg gydweithio gyda Ombwdsmyn a Chomisiynwyr eraill (adrannau 20 a 21). Argymhellaf fod y Pwyllgor yn ystyried priodoldeb cynnwys cymalau tebyg yn y Bil yn hytrach na'r cynnig cyfredol ynghylch aelodaeth y Panel Cynghori.

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau ar yr ymgynghoriad.

Yn gywir

Gwenith Price pp.

**Meri Huws**

Comisiynydd y Gymraeg